

7 - Llanelwy i Llanefydd 6.3 milltir/10.1 km

Gadewch yr Eglwys Gadeiriol a cherdded i lawr drwy'r dref a thros y bont. Trowch i'r chwith a pharhau ar hyd y ffordd yma. Ewch yn eich blaen wrth y gyffordd i basio'r ffatri ar eich ochr chwith. Cymerwch y ffordd gyntaf ar eich ochr chwith a dilyn hon am 1.4 milltir/2.2 km. Ewch i'r dde pan gyrhaeddwch fforch yn y ffordd a chyn hir byddwch yn cyrraedd yr eglwys fawreddog yng Nghefn Meiriadog. Ewch i'r chwith wrth y fforch nesaf ac i lawr i'r Gyffordd T. Trowch i'r dde i Bont Newydd. Croeswch dros y bont.

Trowch i'r dde i fyny'r allt. Ar ôl 100 metr cymerwch y llwybr troed ar y chwith a dilyn drwy'r coed at giât i ddod allan i'r cae. Mae'r llwybr yn gwyro'n lletraws i'r chwith i fynd i fyny'r allt a thrwy giât i'r cae nesaf. Dilynwch y llwybr ar hyd ochr y gwrych i ymuno â'r trac wrth ochr fferm Croen Llwm Mawr.

Croeswch y ffordd a chymryd y trac gyferbyn i'r fferm yn Nhyddyn Bartley. Mae'r llwybr yn mynd rhwng y ffermdy ac adeiladau'r fferm. Ewch drwy'r gatiau a throi i'r dde ar ôl yr ail i mewn i gae. Cerddwch ymlaen gyda'r coed ar eich ochr dde i'r gornel dde bellaf. Ewch dros gamfa i drac sydd wedi'i amgáu a throwch i'r chwith i fynd drwy giât i'r lôn yn Nhŷ'n y Bedw. Cerddwch 200 metr ar hyd y lôn yma i'r gyffordd gyntaf a throi i'r dde i lawr yr allt tuag at y bwthyn. Gan basio ochr chwith y bwthyn, ewch drwy'r dyffryn bychan yma, dros bont droed ac yna i fyny i'r ffordd. Yn y fan yma ewch i'r dde ac yna'n syth dros y groesffordd.

Ar ôl 150 o fetrau, cymerwch y llwybr troed ar y chwith. Mae hwn yn dilyn y ffens am ychydig o bellter, tua 50 metr, ac yna'n mynd yn syth ar draws y cae i gamfa. Dilynwch y llwybr gyda'r cyfeirbwyntiau at y ffordd.

Trowch i'r dde a dilyn y ffordd nes cyrhaeddwch fforch. Cymerwch y ffordd ar y chwith i gyrraedd cyffordd. Yma mae gennych ddau opsiwn:- Parhau, troi i'r chwith i fyny'r ffordd nes cyrhaeddwch ardal o eithin ar yr ochr dde. Yma, cymerwch y llwybr troed drwy'r ardal hon i gyrraedd camfa sy'n hawdd ei gweld. Neu, i fynd i ymweld â Llanefydd, trowch i'r dde yma a dilyn y ffordd am 500m i'r pentref.